Mumbles Community Council

# Minutes of Culture, Tourism and Communications Committee
# Held on Wednesday, 28 January 2026 at 6.30pm
# Hybrid Meeting at Ostreme Centre and via Teams

**Councillors Present:** Cllrs. Angela O'Connor (Chair), Rob Marshall (Vice Chair), Laura Gilbert David Lewis and Tim Zhou.

**Officers Present:** Ian Hughes – CSO

**CT2601-01** **Apologies for Absence**
Cllrs Richard Jarvis and Martin O'Neill,

**CT2601-02** **Declarations of Interest**
None

**CT2601-03** **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**
To approve the minutes of the meetings held on 26 November 2025 as a true record.

**RESOLVED:** to approve the meeting minutes held on 26 November 2025 as an accurate record.

**CT2601-04** **Update on actions from previous meetings.**
The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

Mumbles Community Council

**CT2601-05** **Budget Monitoring Report to 30/11/2025 - RFO, Paul Beynon**

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been distributed to committee members. No questions relating to the budget reports had been provided either to the CSO or the RFO prior to the meeting.

No questions relating to the reports were raised during the meeting

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 30th November 2025

**CT2601-06** **Budget 2026/27**

The Budget Scrutiny Meeting discussed and made recommendations in relation to budget proposal forms on 26.1.2026

The Chair, Cllr O'Connor will be discussing underspent budgets with RRO and update members at February's Meeting.

RESOLVED: Committee members to be mindful of current underspent budgets when considering budgets for 2026/27.

.

**CT2601-07** **Christmas 2025 Feedback**

The Chair, Cllr O'Connor invited committee members to provide feedback on Christmas events. Members believed that all events had been successful, in particular the land train event which had been oversubscribed.

The idea that a Christmas card should be designed by local children for 2026 was discussed.

ACTION CSO to email CO to provide support to the idea of organising a competition for local children to design a Christmas Card on behalf of MCC for 2026.

RECOMMENDED That Full Council approve a competition for local children to design a Christmas Card on behalf of MCC for Christmas 2026.

Mumbles Community Council

**CT2601-08** **MumblesFest 2026 – Update**

The date for MumblesFest 2026 confirmed as being on the 6th June 2026.

Discussion took place in relation to progressing arrangements for MumblesFest.

**RECOMMENDATION**: That all arrangements for MumblesFest 2026 be delegated to The Culture, Tourism and Communication Committee.

The Chair, Cllr O'Connor considered that a 'talent slot' be made available for children during the morning session of the festival, although this would not be to the detriment of a 'school' choir participating. The number of participants would be limited with each paying for a set period of time. Such events have proved successful at other festivals and would encourage local young talent and attract greater attendance through families of participants supporting their acts

**RESOLVED** Together with other suggestions to be discussed at February's Meeting

The importance of participation from local school choirs was discussed. Cllr Marshall suggested that one school choir be created, drawing participation from all local schools and using Year 6 pupils to create a 'school leavers' or 'graduation' choir. All committee members were enthusiastic about this project which would include Welsh and English songs. Cllr Marshall offered to write to all local schools, stating that early liaison is necessary in order to make all necessary arrangements

**ACTION** All schools within MCC to be e-mailed with a view to creating and preparing a combined choir consisting of Year 6 Leavers. Cllr Marshall to subsequently co-ordinate the training of a combined choir.

Cllr Zhou joined the meeting at 6.40pm

**CT2601-09** **Newsletter Update**

The Chair, Cllr O'Connor informed the committee that the MCC Newsletter had been published in December.
The CSO updated the committee that he had liaised with The CO over future newsletters who advised that Newsletters should be published twice a year.

**RESOLVED** MCC Newsletters to be produced for June and December 2026.

.

Mumbles Community Council

**CT2601-10** **Mumbles Tourism**

**The Chair, Cllr O'Connor informed the Committee that together with The CO she had liaised with Mark Hoskins, in relation to promoting Mumbles Tourism through the use of a website.**

**RESOLVED:** Mark Hoskins to present opportunities to develop and promote Mumbles Tourism at February's Committee Meeting.

**CT2601-11** **Breast Cancer Awareness**

**The Chair, Cllr O'Connor, highlighted the Breast Cancer Awareness event in October 2026. A discussion on potential events to highlight this significant disease took place, including Cllr O'Connor contacting The Yarn Bombers for suitable ideas.**

**RESOLVED:** Councillors to consider opportunities for Breast Cancer Awareness and make suitable proposals at a meeting prior to October's Event. In addition, Cllr O'Connor to liaise with the Yarn Bombers.

**CT2601-12** **St David's Day Events**

A number of ideas were suggested to celebrate St David's Day including face painting, art events, storytelling, quiz events, and refreshment with a Welsh slant such as Welsh cakes and tea.

Due to St David's Day falling on a Sunday in 2026 it was agreed that the availability of The Ostreme and Hub should be established prior to any arrangements being made.

**ACTION:** CSO to establish whether Ostreme and The Hub are available for events to celebrate St David's Day.

**The meeting ended at 6.52pm.**

**Next Meeting Wednesday 25th February 2026 at 2.00pm**

# Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu
# A gynhaliwyd ddydd Mercher, 28 Ionawr 2026 am 6.30pm
# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Angela O'Connor (Cadeirydd), Rob Marshall (Is-gadeirydd), Laura Gilbert, David Lewis a Tim Zhou.

**Swyddogion yn bresennol:** Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**CT2601-01** **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr Richard Jarvis a Martin O'Neill.

**CT2601-02** **Datganiadau o fuddiant**

Dim

**CT2601-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2025 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD**: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2025 fel cofnod cywir.

Commented [LH1]: Note to client. I think this should be 'meeting' and not 'meetings' in original. I have changed the translation accordingly.

**CT2601-04** **Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol.**

Rhoddodd y swyddog cymorth pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' a oedd heb eu cwblhau i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

**CT2601-05** **Adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 30 Tachwedd 2025 – y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, eisoes wedi'u dosbarthu i aelodau'r pwyllgor. Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiadau cyllideb wedi'u darparu i'r swyddog cymorth pwyllgorau na'r swyddog ariannol cyfrifol cyn y cyfarfod.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau ynghylch yr adroddiadau yn ystod y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 30 Tachwedd 2025.

**CT2601-06** **Cyllideb 2026-2027**

Trafododd y Cyfarfod Craffu ar y Gyllideb a gwnaed argymhellion mewn perthynas â ffurflenni cynnig cyllideb ar 26 Ionawr 2026

Bydd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, yn trafod cyllidebau sydd wedi'u tanwario â'r Swyddog Ariannu Cyfrifol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau yng nghyfarfod mis Chwefror.

PENDERFYNWYD: Bod aelodau'r pwyllgor yn cadw'r cyllidebau sydd wedi'u tanwario ar hyn o bryd mewn cof wrth ystyried y cyllidebau ar gyfer 2026-2027.

**Commented [LH2]:** Note to client. I think this should be 'RFO' in original and not 'RRO.' I have adjusted the translation accordingly.

Mumbles Community Council

**CT2** **Adborth Nadolig 2025**

Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, wahoddiad i aelodau'r pwyllgor i roi adborth ar ddigwyddiadau'r Nadolig. Teimlai'r aelodau fod pob digwyddiad wedi bod yn llwyddiannus, yn enwedig y trên bach, lle'r oedd y galw wedi bod yn ysgubol.

Trafodwyd y syniad y dylai plant lleol ddylunio cerdyn Nadolig ar gyfer 2026.

CAM GWEITHREDU Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i anfon neges e-bost i'r Prif Swyddog i gefnogi'r syniad o drefnu cystadleuaeth i blant lleol ddylunio cerdyn Nadolig ar ran Cyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer 2026.

ARGYMHELLWYD Bod y cyngor llawn yn cymeradwyo'r syniad i gynnal cystadleuaeth i blant lleol ddylunio cerdyn Nadolig ar ran Cyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer Nadolig 2026.

**CT2601-08** **Gŵyl y Mwmbwls 2026 – yr wybodaeth ddiweddaraf**

Cadarnhawyd mai dyddiad Gŵyl y Mwmbwls 2026 fydd 6 Mehefin 2026.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch symud ymlaen â'r trefniadau ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls.

**ARGYMHELLIAD:** Bod yr holl drefniadau ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls 2026 yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu.

**Commented [LH3]:** Note to client. Year needs to be change to 2026 in original. I have adjusted the translation accordingly.

Ystyriodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, y dylid darparu 'slot talent' i blant yn ystod sesiwn fore'r ŵyl, er na fyddai hynny'n newid y trefniadau i gael côr ysgol i gymryd rhan. Byddai nifer y cyfranogwyr yn gyfyngedig gyda phob un yn talu am gyfnod penodol o amser. Mae digwyddiadau o'r fath wedi bod yn llwyddiannus mewn gwyliau eraill a byddai'n annog talent ifanc lleol ac yn denu mwy o bobl i fynychu gan y byddai teuluoedd y bobl oedd yn cymryd rhan yn dod i gefnogi eu perfformiadau.

**PENDERFYNWYD** bod y mater hwn, ynghyd ag awgrymiadau eraill, i gael eu trafod yng nghyfarfod mis Chwefror

Trafodwyd pwysigrwydd cyfranogiad gan gorau ysgolion lleol. Awgrymodd y Cynghorydd Marshall y dylid creu un côr ysgol drwy gael pob ysgol leol i gymryd rhan, gan ddod â disgyblion Blwyddyn 6 ynghyd i greu côr o ddisgyblion sy'n ymadael neu gôr 'graddio'. Roedd holl aelodau'r pwyllgor yn frwdfrydig am y prosiect hwn, a fyddai'n cynnwys caneuon Cymraeg a Saesneg. Cynigiodd y Cynghorydd Marshall

ysgrifennu at bob ysgol leol, gan nodi bod angen cysylltu â hwy'n gynnar er mwyn gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol.

**CAM GWEITHREDU** Anfon neges e-bost at bob ysgol yng Nghyngor Cymuned y Mwmbwls, gyda'r bwriad o greu côr cyfun o ddisgyblion Blwyddyn 6 a fydd yn gadael eleni. Y Cynghorydd Marshall i gydlynu ymarferion y côr cyfun wedi hynny.

Ymunodd y Cynghorydd Zhou â'r cyfarfod am 6.40pm

## CT2601-09 Cylchlythyr – yr wybodaeth ddiweddaraf

Hysbysodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, y pwyllgor fod Cylchlythyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr.
Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau wybod i'r pwyllgor ei fod wedi cysylltu â'r Prif Swyddog ynghylch cylchlythyrau yn y dyfodol, a chynghorodd y dylid cyhoeddi cylchlythyrau ddwywaith y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD** Cynhyrchu Cylchlythyrau Cyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer mis Mehefin a mis Rhagfyr 2026.

.

## CT2601-10 Twristiaeth y Mwmbwls

**Hysbysodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, y pwyllgor ei bod hi, ynghyd â'r prif swyddog, wedi cysylltu â Mark Hoskins, mewn perthynas â hyrwyddo twristiaeth y Mwmbwls trwy ddefnyddio gwefan.**

**PENDERFYNWYD:** Bod Mark Hoskins yn cyflwyno cyfleoedd i ddatblygu a hyrwyddo twristiaeth y Mwmbwls yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Chwefror.

## CT2601-11 Ymwybyddiaeth o ganser y fron

**Tynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, sylw at y digwyddiad ymwybyddiaeth o ganser y fron ym mis Hydref 2026. Cynhaliwyd trafodaeth ar ddigwyddiadau posibl i dynnu sylw at y clefyd arwyddocaol hwn, gan gynnwys bod y Cynghorydd O'Connor yn cysylltu â'r gweu-thredwyr am syniadau addas.**

**PENDERFYNWYD:** Bod y cynghorwyr yn ystyried cyfleoedd i dynnu sylw at ymwybyddiaeth o ganser y fron a gwneud cynigion addas mewn cyfarfod cyn y digwyddiad ym mis Hydref. Yn ogystal â hyn, bydd y Cynghorydd O'Connor yn cysylltu â'r gweu-thredwyr.

**CT2601-12** **Digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi**

Awgrymwyd nifer o syniadau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, gan gynnwys peintio wynebau, digwyddiadau celf a chrefft, adrodd straeon, cwisiau, a lluniaeth â naws Gymreig megis pica ar y maen a the.

Gan fod Dydd Gŵyl Dewi ar ddydd Sul yn 2026 yn digwydd bod, cytunwyd y dylid sicrhau bod Canolfan Ostreme a'r Hyb ar gael cyn gwneud unrhyw drefniadau.

**CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i wirio a yw canolfan Ostreme a'r Hyb ar gael ar gyfer cynnal digwyddiadau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.52pm.**

**Cyfarfod nesaf dydd Mercher 25 Chwefror 2026 am 2pm**